# Llywodraeth Cymru: Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru.

## Adolygiad Cyntaf – Ymgynghoriad Cyhoeddus, Hydref - Rhagfyr 2013

Canllawiau ar ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

Mae'r ddogfen hon wedi'i llunio er mwyn ichi gyflwyno sylwadau ar ddrafft ymgynghori yr Adolygiad Cyntaf o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru a De Cymru, fel y'u cyhoeddwyd ar 28ain Hydref 2013 ar Wefannau Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru.

Mae'r Adolygiad Cyntaf yn cynnwys y brif ddogfen ynghyd â'r Atodiad Rhanbarthol ar Ogledd Cymru (Atodiad A) neu Dde Cymru (Atodiad B), fel sy'n briodol. Mae'r tair dogfen, ynghyd â'r llythyr esboniadol gan Lywodraeth Cymru, ar gael i'w lawrlwytho oddi ar Wefannau'r ddau Weithgor Agregau Rhanbarthol.

Mae'r broses Ymgynghori ar agor o 28fed Hydref i 23ain Rhagfyr 2013.

Os hoffech gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, cadwch gopi o'r ffurflen hon i'ch cyfrifiadur, rhowch eich manylion yn y blwch isod, ac yna atebwch unrhyw rai neu bob un o'r cwestiynau dilynol, yn dibynnu ar y maes/meysydd sydd o ddiddordeb ichi neu'n destun pryder ichi. Does dim rhaid ateb pob cwestiwn – gallwch adael y lleill yn wag.

I fewnosod ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau, teipiwch mewn unrhyw fan yn yr adrannau llwyd. Nid oes cyfyngiad geiriau ond byddai'n fuddiol pe baech yn cadw'ch ymatebion mor gryno â phosibl.

**Pan fyddwch wedi gorffen, dylech gadw'r ddogfen a'i hatodi wedyn at ebost wedi'i gyfeirio at awdur yr adroddiadau: alan.thompson@cuesta-consulting.com, erbyn 23ain Rhagfyr 2013 fan hwyraf.**

Bydd pob ymateb a ddaw i law erbyn y dyddiad cau yn cael ei gydnabod, ac efallai y gwnaiff yr awdur gysylltu â chi am eglurhad oni bai eich bod yn dweud yn wahanol yn y blwch isod.

Caiff pob ymateb unigol ei rannu rhwng yr awdur a'r Grŵp Cleientiaid (Llywodraeth Cymru ac Ysgrifenyddion Technegol y ddau Weithgor Agregau Rhanbarthol), ond fel arall cânt eu trin yn gwbl gyfrinachol.

**Eich Manylion Chi**:

Eich Enw *(dewisol)*: Adrian James

Eich ymwneud â phroses y Datganiadau Rhanbarthol Technegol *(e.e. gweithredwr mwynau, swyddog cynllunio, Aelod etholedig, rhanddeiliad 'ffurfiol' arall, aelod o'r cyhoedd)*: Cyfoeth Naturiol Cymru

Ardal pa Awdurdod Cynllunio Mwynau yr ydych wedi'ch lleoli ynddi, lle mae'n berthnasol *(gweler Ffig. 3.1 yn yr adroddiad)*: ddim yn berthnasol

Fyddech chi'n hapus inni gysylltu â chi em eglurhad, os oes angen, yn y cyfeiriad ebost yr ydych wedi'i ddefnyddio i gyflwyno'ch ymateb? *(Byddwn/na fyddwn)* Byddwn

**Cyffredinol**

Cwestiwn 1: At ei gilydd, ydy'r Adolygiad Cyntaf Drafft o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol yn help ichi ddeall y materion dan sylw wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth agregau yng Nghymru i'r dyfodol? (Os nad yw, awgrymwch unrhyw feysydd y gellid eu gwella).

Eich Ateb: Dim sylw.

**Crynodeb Gweithredol**

Cwestiwn 2: Oes unrhyw faterion allweddol neu ganfyddiadau o'r brif ddogfen ar goll o'r Crynodeb Gweithredol a bod angen eu hychwanegu?

Eich Ateb: Dim sylw.

**Pennod 1: Pwrpas y Datganiadau Technegol Rhanbarthol**

Cwestiwn 3: Oes unrhyw agweddau o bwrpas y Datganiadau Technegol Rhanbarthol nad ydych yn eu deall ar ôl darllen y bennod hon? Oes unrhyw agweddau rydych chi'n anghytuno â nhw? Os oes, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

**Pennod 2: Egwyddorion Allweddol a Dulliau Gweithredu**

Cwestiwn 4: Ydych chi'n hapus â'r egwyddorion allweddol a'r dulliau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y bennod hon? Os nad ydych, eglurwch pam a beth sydd ar goll, os oes rhywbeth.

Eich Ateb: Rydym yn croesawu'r ffaith fod egwyddor agosatrwydd ac ystyried capasiti amgylcheddol wedi cael eu nodi fel egwyddorion allweddol yn sail i'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol. O'u rhoi ar waith yn briodol, dylai hyn sicrhau bod cyfyngiadau amgylcheddol posibl yn cael eu nodi a'u hystyried yn gynnar yn y broses gynllunio strategol, gan roi modd i gyfeirio datblygu i leoliadau priodol a lleihau gwrthdaro yn y dyfodol ar lefel ceisiadau unigol. Dylai hyn alluogi'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol i gynnig mwy o sicrwydd i'r awdurdodau cynllunio mwynau wrth benderfynu ble y gall unrhyw ddatblygu newydd gael ei leoli'n gynaliadwy a'i bod yn realistig ei wireddu.

Cwestiwn 5: Ar ôl darllen y ddogfen gyfan, ydych chi'n meddwl bod yr egwyddorion allweddol hyn wedi cael eu harfer yn ddigonol wrth gyflawni'r adolygiad? Os nad ydych, eglurwch pam.

Eich Ateb: Mae paragraffau 2.13, 2.14 a 4.3 o'r Datganiadau yn dweud na chafodd capasiti amgylcheddol unrhyw ddylanwad ar bennu ffigurau dosrannu neu ddyraniadau. Hefyd, nid ystyriwyd dynodiadau amgylcheddol unigol ar wahân i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) fel rhan o'r drefn seiliedig ar gapasiti amgylcheddol. Er ein bod yn croesawu'r ystyriaeth a roddwyd i leoliadau Parciau Cenedlaethol a safleoedd AHNE, credwn y dylai unrhyw asesiad strategol sydd i fod i adlewyrchu capasiti amgylcheddol roi ystyriaeth hefyd i leoliad dynodiadau cadwraeth natur statudol. Byddai methiant i ystyried dynodiadau o'r fath yn cynrychioli methiant i roi sylw priodol i gyfyngiadau arwyddocaol posibl rhag datblygu, a gallai felly effeithio ar wireddu'r ffigurau dosrannu a'r dyraniadau a argymhellir yn y Datganiadau.

Dywed paragraff 58 o *Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau* (2004) fod y Cynulliad o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd cynigion i gloddio am agregau yn dderbyniol yn y dyfodol lle ceid effaith niweidiol arwyddocaol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau cynllunio lleol, i gymryd camau rhesymol, sy'n gyson â rhoi eu swyddogaethau ar waith yn briodol, i hyrwyddo cadwraeth y nodweddion y dynodwyd SoDdGA o'u herwydd, a'u gwella. Rydym o'r farn felly y dylai'r drefn seiliedig ar gapasiti amgylcheddol ystyried lleoliad SoDdGA unigol hefyd.

Er ein bod yn cydnabod na ddylai'r Datganiadau ragfarnu materion y byddai'n fwy priodol efallai eu hystyried fel rhan o brosesau'r CDLl neu brosesau Rheoli Datblygu, rydym yn credu y dylai'r Datganiadau ystyried lleoliad SoDdGA fel rhan o unrhyw drefn seiliedig ar gapasiti amgylcheddol. Bydd hyn yn sicrhau

bod unrhyw argymhellion ynglŷn â dyraniadau sydd i'w cynnwys yn y Datganiadau wedi'u seilio ar wybodaeth am leoliad cyfyngiadau amgylcheddol o'r fath, a'u bod hefyd yn adlewyrchu'r dull gweithredu a nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol i warchod SoDdGA. Hefyd, bydd rhoi ystyriaeth briodol i SoDdGA fel rhan o broses ddatblygu'r Datganiadau yn sicrhau bod y lefelau dosrannu i awdurdodau cynllunio mwynol unigol yn cael eu seilio ar well dealltwriaeth o gapasiti ardaloedd awdurdodau unigol i ymdopi â datblygu newydd. Dylai hyn helpu i sicrhau y bydd modd i'r polisïau a'r dyraniadau mwynau a gynhwysir yn y CDLlau sy'n gweld golau dydd (sydd wedi'u seilio'n bennaf ar wybodaeth yn y Datganiadau Technegol Rhanbarthol) gael eu gwireddu'n realistig o fewn cyfnod y Cynllun.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu trafodaeth bellach am y wybodaeth sydd ganddo am leoliad chwareli presennol sy'n agos at SoDdGA.

Dylai adolygiadau o'r Datganiadau yn y dyfodol hefyd ystyried cynigion Llywodraeth Cymru i reoli adnoddau naturiol, fel y'u cyflwynwyd yn *Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd* (2013), yn arbennig y Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol arfaethedig a'r Dull Rheoli Adnoddau Naturiol ar sail Ardal.

**Pennod 3: Asesu'r Galw**

Cwestiwn 6: Ydych chi'n hapus â'r ffordd yr aed ati i asesu'r galw tebygol yn y dyfodol am agregau crai o'r tir yng Nghymru? Os nad ydych, eglurwch pam a pha welliannau y gellid eu hystyried.

Eich Ateb: Yn gyffredinol rydym yn cefnogi'r dull a ddefnyddiwyd i asesu'r galw tebygol yn y dyfodol am agregau crai o'r tir. O ystyried y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym yn cytuno nad oes tystiolaeth i awgrymu angen i ddarparu ar gyfer lefel uwch o alw na'r hyn sydd wedi'i nodi yn y Datganiadau.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n hapus â dilysrwydd canfyddiadau'r asesiad hwn, un ai o ran awdurdodau cynllunio mwynau unigol neu'r Rhanbarth neu'r Wlad yn ei chyfanrwydd? Os nad ydych, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

**Pennod 4: Dadansoddi'r Patrwm Cyflenwi Presennol**

Cwestiwn 8: Ydych chi'n hapus â'r esboniad a roddwyd yn y bennod hon o'r patrymau cyflenwi presennol ar draws Cymru gyfan? Os nad ydych, eglurwch eich pryderon. *(Ond sylwch mai dim ond pryderon yn ymwneud â manylion yn eich Rhanbarth neilltuol chi y gellir ymdrin â nhw mewn ymateb i'r cwestiynau ychwanegol (15 i 20) am y ddau Atodiad Rhanbarthol)*.

Eich Ateb: Dim sylw.

**Pennod 5: Dosraniadau a Dyraniadau i'r Dyfodol**

Cwestiwn 9: Ydych chi'n hapus â'r dosraniadau a nodwyd yn Nhabl 5.1 a'r testun ategol? Os nad ydych, nodwch eich pryderon, un ai o ran awdurdodau cynllunio mwynau unigol neu Gymru yn ei chyfanrwydd.

Eich Ateb: Rydym yn croesawu'r eglurhad a geir yn Nhabl 5.1 fod y ffigurau dosrannu a ddangosir ar gyfer Parciau Cenedlaethol yn cyfeirio at gynhyrchu o gyflenwadau presennol yn yr ardaloedd hynny, ac nad ydynt yn awgrymu bod disgwyl i ardaloedd o'r fath ddarparu dyraniadau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, credwn y dylai sylw pellach gael ei roi i'r cyfle i bennu ffigurau dosrannu i ranbarthau neu is-ranbarthau yn hytrach nag ar gyfer awdurdodau cynllunio mwynau unigol. Byddai ymdrin â dosrannu yn rhanbarthol / is-ranbarthol yn sicrhau nad oes lefel ddosrannu yn cael ei phennu i awdurdod unigol nad oes ganddo'r capasiti amgylcheddol i'w gwireddu.

Mae'r adolygiad o'r Datganiadau yn cynnig y cyfle i awdurdodau cynllunio mwynau gydweithio ar sail ranbarthol / is-ranbarthol i bennu lefelau dosrannu sydd wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o'r capasiti amgylcheddol i ymdopi â datblygu newydd.

Byddai ymdrin â dosrannu ar sail ranbarthol / is-ranbarthol yn sicrhau nad oes lefel ddosrannu yn cael ei phennu i awdurdod lleol nad oes ganddo'r capasiti i'w gwireddu oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol arwyddocaol.

Lle mae pryderon ynglŷn â diffyg cyflenwad posibl, byddai'r dull rhanbarthol o ymdrin â dosrannu yn golygu bod modd ystyried sut y gellid ateb y diffyg yn gynaliadwy o gyflenwadau wrth gefn o fewn awdurdodau cyfagos yn y rhanbarth / is-ranbarth.

Gallai ffiniau rhanbarthau o'r fath gael eu seilio ar ffigurau defnydd hysbys; mae'n ymddangos o baragraff 3.43 o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol fod y ffigurau hyn ar gael ar lefel is-ranbarthol. Byddai hyn yn gydnaws â'r cynigion i wella cydweithredu a Chynlluniau Datblygu Strategol fel sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori 'Cynllunio Cadarnhaol'.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n hapus â'r manylion ynglŷn â chyflenwadau dros ben / diffyg yng Nghablau 5.2 a 5.3 a'r testun ategol? Os nad ydych, nodwch eich pryderon, un ai o ran awdurdodau cynllunio mwynau unigol neu Gymru yn ei chyfanrwydd.

Eich Ateb: Dim sylw.

Cwestiwn 11: Yn fwy penodol, ydych chi'n cytuno â'r rhesymeg o beidio â chynnwys safleoedd segur a safleoedd sydd wedi'u hatal o'r cyfrifiadau banc tir sylfaenol (ar yr amod fod y cyflenwadau ar y safleoedd hyn ar gael i wrthbwyso unrhyw ofynion dyrannu, lle mae'n ofynnol, fel yr eglurwyd ym mharagraff 5.19). Os ydych yn anghytuno, eglurwch pam.

Eich Ateb: Dim sylw.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n hapus â'r manylion a nodwyd ym mharagraffau 5.20 a 5.21, sy'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio mwynau unigol i wyro oddi wrth argymhellion y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Os nad ydych, eglurwch pam.

Eich Ateb: Rydym yn credu ei bod yn briodol cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio mwynau i wyro oddi wrth y ffigurau dosrannu neu'r dyraniad sy'n cael ei argymell yn y Datganiadau, lle mae tystiolaeth newydd yn cyfiawnhau hynny e.e. mewn perthynas â chapasiti amgylcheddol. Fodd bynnag, mae gwahanol awdurdodau cynllunio mwynau ar gamau gwahanol o'r broses o lunio CDLl. Mae gennym bryderon felly ynglŷn â sut y bydd awdurdodau cynllunio mwynau sy'n dymuno gwyro oddi wrth y Datganiadau yn gallu cytuno gydag awdurdodau cynllunio mwynau eraill sydd â CDLl mabwysiedig ynglŷn â sut i wireddu'r cyfansymiau is-ranbarthol neu ranbarthol. Awgrymwn y dylai canllawiau pellach gael eu darparu ar y mater hwn.

**Pennod 6: Y Broses Ymgynghori**

Cwestiwn 13: Ydych chi'n meddwl bod y broses ymgynghori, fel y caiff ei hegluro yn y bennod hon, ac yn cynnwys yr arolwg hwn, yn ddigonol ac yn addas i'w diben? Os nad ydych, eglurwch pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran yr adolygiad hwn neu adolygiadau yn y dyfodol.

Eich Ateb: Dim sylw.

**Rhestr Termau**

Cwestiwn 14: Ydy'r diffiniadau a roddir yn y Rhestr Termau yn ddigon clir a chywir? Os nad ydynt, manylwch ar unrhyw ddiffygion.

Eich Ateb: Dim sylw.

**Atodiad A: Gogledd Cymru**

Cwestiwn 15: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw rai o'r manylion sydd ym mharagraffau A1 i A46 o Atodiad A? Os oes, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

Cwestiwn 16: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella'r wybodaeth ffeithiol sydd yn Nhablau A3 i A5? Os oes, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

Cwestiwn 17: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw ran o'r wybodaeth a roddir am awdurdodau cynllunio mwynau unigol ar dudalennau 12 i 24 o Atodiad A? Os oes, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

**Atodiad B: De Cymru**

Cwestiwn 18: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw rai o'r manylion sydd ym mharagraffau B1 i B46 o Atodiad B? Os oes, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

Cwestiwn 19: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella'r wybodaeth ffeithiol sydd yn Nhablau B3 i B5? Os oes, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

Cwestiwn 20: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw ran o'r wybodaeth a roddir am awdurdodau cynllunio mwynau unigol ar dudalennau 19 i 50 o Atodiad B? Os oes, manylwch.

Eich Ateb: Dim sylw.

**Ac yn Olaf …**

Cwestiwn 21:  Ydych chi'n meddwl bod yr Adolygiad cyntaf hwn o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol yn debygol o fod yn help i symud tuag at system chwarela fwy cynaliadwy yng Nghymru, yn y blynyddoedd i ddod?  Os nad ydych, eglurwch pam.

Eich Ateb: Mae adolygu'r Datganiadau yn cynnig cyfle i symud tuag at system chwarela fwy cynaliadwy yng Nghymru.

Wrth gyfrannu tuag at system chwarela fwy cynaliadwy, rydym o'r farn y dylai'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol helpu i gyfeirio datblygu i'r mannau hynny lle mae capasiti amgylcheddol i ymdopi â datblygu newydd.  Fel rhan o hyn, ac i'w gwneud yn fwy sicr y bydd modd gwireddu argymhellion y Datganiadau, rydym o'r farn y dylai'r ffigurau dosrannu a'r dyraniadau adlewyrchu dealltwriaeth o leoliad dynodiadau statudol.

Hefyd, rydym o'r farn y dylai'r Datganiadau hyrwyddo cydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio mwynau wrth ddiwallu'r galw am fwynau.  Lle mae pryder na all awdurdod cynllunio mwynau unigol gyrraedd ei lefel ddosrannu arfaethedig, dylai'r adolygiad o'r Datganiadau gyflwyno fframwaith y gall awdurdodau mwynau gydweithio oddi mewn iddo er mwyn cyrraedd targed dosrannu rhanbarthol / is-ranbarthol.

Cwestiwn 22:  Os ydych yn ymwneud yn agos â rhoi'r broses Cynllun Datblygu Lleol ar waith yng Nghymru, ydych chi'n credu bod y Datganiadau diwygiedig yn debygol o fod o gymorth yn arwain y broses honno ac yn dylanwadu arni?  Os nad ydych, eglurwch pa welliannau yr hoffech chi eu gweld.

Eich Ateb: Dim sylw.

Cwestiwn 23:  … ac a oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r Adolygiad o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol?

Eich Ateb: Dim sylw.